Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
Cardiff Business School / Ysgol Busnes Caerdydd

UKRI Economic and Social Research Council

ESRC Wales Doctoral Training Partnership / Partneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC

# Sut i Weithio gyda Busnes er Budd Eich Ymchwil

## Gwybodaeth am Fusnes a'r Gallu i Ymgysylltu ar gyfer Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa a PhDs ym maes y Gwyddorau Cymdeithasol

Gydag Addysg Weithredol

## Pecyn Recriwtio

Tachwedd 2020 – Mawrth 2021





Mae ymchwil sy’n cael effaith yn rhywbeth a ddisgwylir ym y byd academaidd cyfoes. Mae ymchwil ym maes y Gwyddorau Cymdeithasol yn ymwneud ag effaith sy’n gwneud gwahaniaeth. Felly, dylid ystyried y gallu i ymgysylltu â busnes - boed yn fater o ymchwilio i sefydliadau neu o rannu gwybodaeth ymchwil gyda sefydliadau, yn sgil hanfodol i bob ymchwilydd goleuedig ym maes y gwyddorau cymdeithasol.

*Beth yw’r sgiliau y mae’n bosibl y bydd eu hangen arnoch i wneud gwahaniaeth a chael effaith? Beth yw’r pethau y mae angen i chi feddwl amdanynt wrth i chi orffen eich PhD, neu ddechrau edrych am gychwyn cyfnod nesaf eich gyrfa fel ymchwiliwr?*

Yn y bôn, mae’r rhaglen hon yn ymwneud â sut i ddefnyddio’ch ymchwil i wneud gwahaniaeth go iawn a sut i fod yn wyddonydd cymdeithasol sy’n cael effaith.

## Amcan

Darparu rhaglen ddysgu i fyfyrwyr doethurol ac ymchwilwyr dechrau gyrfa i roi iddynt y gallu i ddeall yr heriau o ymgysylltu â busnes a rhai o'r galluoedd sydd eu hangen i wneud hynny'n effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn bydd y rhaglen yn archwilio:

- Sut mae busnes yn defnyddio ymchwil a wneir ym maes y gwyddorau cymdeithasol
- Sut mae ymchwilwyr ym maes y gwyddorau cymdeithasol yn gweithio gyda busnes
- Manteision gweithio gyda busnes
- Y cymhlethdodau a'r anawsterau a geir wrth ddod â'r ddau fyd ynghyd.

## Pwy ddylai astudio'r cwrs hwn?

- Ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa
- Ymchwilwyr Doethurol
- ... sydd â diddordeb mewn deall/datblygu cysylltiadau â busnes er mwyn gwella ffocws ac effaith eu hymchwil.

## Pam ddylech chi astudio'r cwrs hwn?

- I'ch  helpu i ddeall yr heriau a'r cyfleoedd a geir o ymgysylltu â busnes
- I'chhelpu i feithrin eich sgiliau wrth ymgysylltu â busnes
- Bydd y rhaglen hon yn eich helpu i drosglwyddo i wahanol lwybrau gyrfa ar ôl gorffen eich PhD neu'ch contract dechrau gyrfa yn llwyddiannus.

Mae hwn yn gyfle gwych i gael profiad o raglen a gynlluniwyd ag a gyflawnir gan Ysgol Busnes Caerdydd ac Addysg Weithredol, sef Ysgol Busnes Gwerth Cyhoeddus. Mae'n cefnogi'r hyfforddiant a ddarperir gan raglenni meistr ymchwil ym maes y gwyddorau cymdeithasol ar draws yr holl Brifysgolion yn DTP ESRC Cymru ac yn Academi Ddoethurol Prifysgol Caerdydd. Felly, rydym yn annog presenoldeb ym mhob un o'r sesiynau drwy gydol y rhaglen ond rydym yn deall os na fydd hyn yn bosibl bob amser.
Drwy gydol y rhaglen, cewch eich annog i fyfyrio ar sut y gallai'r wybodaeth rydych yn cael profiad ohoni fod o fudd i'ch ymchwil.

Bydd pob un o'r 9 sesiwn yn cael eu haddysgu "yn fyw ar-lein" ac ni fyddant yn para yn hwy na 3 awr o hyd. Bydd rhywfaint o gynnwys a dolenni yn cael eu postio cyn pob sesiwn fyw i helpu'r rhai sy'n cymryd rhan i baratoi. Bydd y sesiynau byw yn rhyngweithiol ac yn ddiddorol a chewch gyfle i rwydweithio ag ymchwilwyr o'r un anian ledled Cymru drwy sesiynau trafod a grwpiau trafod. Ein gobaith yw y bydd y grŵp cyntaf yn ffurfio rhwydwaith pwerus a fydd yn cefnogi ei gilydd wrth i'w gyrfaoedd fynd yn eu blaen.



# Esbonio’r Cefndir

## Sesiwn 1 - 25 Tachwedd 2020

**Pwysigrwydd ymgysylltu â Busnes ym maes y Gwyddorau Cymdeithasol** (Sesiwn Ymgyfarwyddo 3 Awr) Yr Athro Rick Delbridge

- Pam mae'n bwysig i’r gwyddorau cymdeithasol a busnes gydweithio? Safbwynt John Brewer – ymgysylltu â haenau uchaf y gymdeithas yn ogystal â chymunedau sydd wedi'u hallgáu
- Iaith busnes ac iaith y gwyddorau cymdeithasol
- Beth allai ymgysylltu â busnes arwain ato? Astudiaethau achos o faes y gwyddorau cymdeithasol effeithiol.

# Thema 1 – Defnydd Busnesau o’r Gwyddorau Cymdeithasol

## Sesiwn 2 – Dechrau Rhagfyr 2020

**Newid Sefydliadol** (Sesiwn 3 awr)

- Damcaniaethau Newid, Diwylliant Sefydliadol a Rheoli Arloesedd – gwahanol fodelau arloesi
- Defnydd Cwmnïau Ymgynghori o’r Gwyddorau Cymdeithasol
- Ymddygiad Marchnata a Defnyddwyr.

## Sesiwn 3 – Canol Rhagfyr 2020

**Data Mawr, Setiau Data Di-strwythur ac AI** (Sesiwn 3 awr)

- Sut mae busnesau’n defnyddio data mawr?
- Pa setiau data mawr y mae gan fusnesau diddordeb ynddynt y mae gwyddonwyr cymdeithasol yn eu defnyddio?
- Cydweithio i gyflawni’r gwyddorau cymdeithasol effeithiol.

# Thema 2 - Ymgysylltu â Busnes

## Sesiwn 4 – Canol Ionawr 2021 **Y Syniadau Diweddaraf am Arweinyddiaeth**

(Sesiwn 3 Awr) Dr Sarah Hurlow

- Beth yw Arweinyddiaeth?
- Sut mae arweinyddiaeth arweinwyr y sector cyhoeddus/preifat/trydydd sector yn wahanol?
- Heriau Arweinyddiaeth yn y Gweithle, a Ffyrdd o Ddylanwadu
- Bydd y modiwl hwn hefyd yn cynnwys adroddiadau proffil personoliaeth Facet5 unigol i bawb sy'n cymryd rhan i’w helpu i archwilio eu harddull arwain eu hunain.

## Sesiwn 5 – Dechrau Chwefror 2021 Hanfodion Cyllid (Sesiwn 3 Awr) Dr Richard Baylis

- Rhoi iaith cyllid i bobl er mwyn gallu cael gwell sgyrsiau gyda busnes.
- Yr amcanion busnes gwahanol – budd-ddalwyr, cyfranddalwyr, busnes teuluol, busnesau cynaliadwy yn cydbwyso cardiau sgorio ac ati e.e. Dehongli cyfrifon, datganiadau elw a cholled, mantolenni a chymarebau ariannol.
- Rheoli cyfalaf gweithredol, stoc, credydwyr, dyledwyr ac arian. Rhagweld a rheoli cyllidebau, cyfrifo a rheoli costau.

## Sesiwn 6 – Diwedd Chwefror 2021 Y Meddwl Strategol Diweddaraf (Sesiwn 3 Awr) Yr Athro Rob Morgan

- Deall a defnyddio syniadau strategol a dulliau dadansoddi sylfaenol ym maes rheoli. Adnabod, arfarnu ac asesu prosesau strategol mewn sefydliadau.
- Asesu'r hyn sydd ar y gorwel am gyfleoedd ariannu a chydweithredu. Cysyniadoli dewisiadau strategol
- Canfod problemau strategol a gwerthuso dewisiadau strategol Dangos ymwybyddiaeth o foeseg a rôl a hawliau amryw fudd-ddalwyr er mwyn rheoli eu gofynion.



# Thema 3 – Pan Fydd Dau Fyd yn Gwrthdaro

## Sesiwn 7 - Canol Mawrth 2021

**Ymgysylltu â Busnesau: Deall Gwerth eich Ymchwil** (Sesiwn 2 Awr)

Nod y sesiwn hon yw eich annog i werthuso a nodi gwerth a budd eich ymchwil a sut i drosglwyddo'r rhain yn effeithiol i anghenion busnesau.

**Rhan 1: Deall a diogelu gwerth eich ymchwil: dadansoddiad o hawliau eiddo deallusol – Tîm Datblygu Masnachol**

- Deall Eiddo Deallusol
- Ymchwil i'r farchnad - Deall ble mae eich ymchwil yn cyd-fynd â'r amgylchedd busnes
- Sut i elwa ar werth eich arloesedd.

**Rhan 2: Cyflwyno'ch ymchwil i Fusnes: Pwyntiau i'w hystyried cyn ymgysylltu â Busnes – Nadine Payne**

- Mapio budd-ddalwyr
- Rhoi sylw i anghenion busnes a'u nodi
- Ymgysylltu â busnes yn effeithiol: Rhwydweithio, Ymgysylltu, Hyrwyddo.

**Rhan 3: Contractau**

- Pryderon meddygol
- Sensitifrwydd masnachol
- Ymwybyddiaeth fasnachol.

## Sesiwn 8 - Canol Mawrth 2021

**Bod yn Ymchwilydd Entrepreneuraidd** (Sesiwn 3 Awr) Y Tîm Menter

- Proffiliau digidol
- Cyflwyniadau cyflym' neu '5 munud i chi eich gwerthu eich hun', cyfweliadau a sgiliau cyflwyno
- Sesiwn cyflwyno a blasu i'r rhaglen a gynigir gan y Tîm Menter - Taith Eich Gyrfa: https://cardiff.potential.ly/dashboard

## Sesiwn 9 – Diwedd Mawrth 2021

**Trafodaeth Derfynol: Dod â phopeth rydym ni wedi'i ddysgu at ei gilydd – gwireddu ein rolau fel gwyddonwyr cymdeithasol gweithredol**

- Beth rydych chi wedi'i ddysgu?
- Ydych chi'n meddwl yn wahanol?
- Beth hoffech chi ei ddysgu nesaf?

## Ynghylch Ysgol Busnes Caerdydd a'r Bartneriaeth

Ariennir y rhaglen hon gan Gyllid Cyflymu Cydweithredu Busnes y Gronfa Buddsoddi mewn Cynnyrch Cenedlaethol (NPIF) a ddyfarnwyd ar y cyd i DTP ESRC Cymru ac IAA ESRC Prifysgol Caerdydd, fel rhan o'u hamcanion i feithrin capasiti a gallu myfyrwyr doethurol ym maes y gwyddorau cymdeithasol ac ymchwilwyr dechrau gyrfa i ymgysylltu â busnes a chydweithio ag ef.

Mae Prifysgol Caerdydd, sydd ar safle 5 yn y DU yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014, yn yr haen uchaf o brifysgolion ymchwil blaenllaw ym Mhrydain fel aelod o 'Grŵp Russell' o fri.

Mae Ysgol Busnes Caerdydd yn ysgol busnes a rheoli gyda'r gorau yn y byd, sy'n canolbwyntio'n ddwys ar ymchwil, gydag enw da am ragoriaeth, roedd yn 6ed yn y DU yn y REF diwethaf. Rydym wedi'n hachredu gan AACSB – sy'n nodwedd o ragoriaeth mewn ysgolion busnes. Dyma achrediad a ddyfernir i lai na 5% o ysgolion busnes y byd, ni yw'r unig ysgol fusnes yng Nghymru sydd wedi ennill y wobr hon.

## Sut i Wneud Cais

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cyfle hwn, bydd angen i ddarpar ymgeiswyr ddangos eu bod yn dod o gefndir yn y gwyddorau cymdeithasol a'u bod naill ai'n ymchwilydd Dechrau Gyrfa neu Ddoethuriaeth yn y gwyddorau cymdeithasol mewn unrhyw un o'r sefydliadau yn DTP ESRC Cymru: Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Swydd Gaerloyw neu Brifysgol Abertawe.

I gael ffurflen mynegi diddordeb, cysylltwch â thîm IAA ESRC: esrciaa@cardiff.ac.uk

**Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais: 13 Tachwedd 2020**








